FFRAMWAITH CYMHWYSEDD

Gosodwr Systemau Giât Awtomataidd a Thechnegydd Gwasanaeth

Cefndir

Nododd yr adroddiad, **Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel** - Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân: Adroddiad Terfynol (Y Fonesig Judith Hackitt DBE FREng, Mai, 2018) fod gan y diwydiant:

"Ymagwedd bresennol at gymhwysedd a oedd yn dameidiog, yn cwmpasu ystod o ddisgyblaethau a fframweithiau cymhwysedd gwahanol hyd yn oed o fewn un ddisgyblaeth a heb gyfeirio at ddisgyblaethau rhyngweithiol eraill".[1]

Mae'r Ddeddf Diogelwch Adeiladu (a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2022), ynghyd â **Rheoliadau Adeiladu ac ati (Diwygio) (Lloegr) Rheoliadau 2023**, wedi cyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd sy'n diffinio cymhwysedd fel bod â'r **sgiliau**, **y wybodaeth**, **y profiad a'r ymddygiadau priodol (SKEB)**. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn sy'n cyflawni unrhyw waith dylunio, adeiladu neu adnewyddu fod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl y maent wedi'u penodi iddi.

[1]Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel - Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân: Adroddiad Terfynol (Y Fonesig Judith Hackitt DBE FREng, Mai, 2018) Crynodeb 5.2, t.75)

Grŵp Llwyio Cymhwysedd y Diwydiant (ICSG)

SLG 1 Syrfewyr Meintiau	**SLG 2** Ymgynghoriaeth Dylunio	**SLG 3** Peirianneg	**SLG 4** Profi, Asesu ac Ardystio Cynnyrch Adeiladu	**SLG 5** Gweithgynhyrchu Cynnyrch Adeiladu
SLG 6 Masnachwyr a Dosbarthu Cynnyrch Adeiladu	**SLG 7** Rheoli Prosiectau a Rhaglenni	**SLG 8** Masnachol a Chaffael	**SLG 9** Darparu Rheolaeth Adeiladu	**SLG 10** Rheolaeth Gosod a Chynnal a Chadw
SLG 10.1 Amlenni	**SLG 10.2** Gwasanaethau Peirianneg	**SLG 10.3** Tu Mewn	**SLG 10.4** Sifils	**SLG 10.5** Strwythurau
SLG 11 Gweithrediadau a Rheoli Adeiladau ac Amgylchedd Adeiledig	**SLG 12** Amddiffyniad Goddefol Rhag Tân	**SLG 13** Amddiffyniad Gweithredol Rhag Tân	**SLG 14** Amlenni	**SLG 15** Cleientiaid

Gweithgorau ICSG

Sefydlwyd y Grŵp Llywio Cymhwysedd (CSG) i fynd i'r afael â diffygion cymhwysedd a nodwyd yn Adolygiad Hackitt 2018. Roedd adroddiad y CSG **Gosod y Bar – cyfundrefn gymhwysedd newydd ar gyfer adeiladu dyfodol diogelwch** (Hydref 2020) yn cynnwys argymhellion ar gyfer Gosodwyr (tudalennau 54–60).



Ym mis Rhagfyr 2024, sefydlwyd y Grŵp Llywio Cymhwysedd Diwydiant (ICSG) yn ffurfiol fel grŵp gwaith o dan y **Pwyllgor Cymhwysedd Diwydiant**, un o dri phwyllgor a sefydlwyd o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau, sy'n adrodd i'r **Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau**. Pwrpas yr ICSG a'i Grwpiau Arweiniol Sector (SLGs) yw galluogi'r diwydiant i gael mynediad at gymwyseddau priodol, fel y gallant gyflawni'n ddiogel at greu ac i ddefnyddio amgylcheddau adeiledig, a dangos eu cymhwysedd i eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu fframweithiau cymhwysedd y cytunwyd arnynt yn y diwydiant, y gellir eu defnyddio i fapio pob hyfforddiant a chymhwyster er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sector.

Mae Grŵp Arweiniol Sector 10 (SLG10) yn yr ICSG yn cynrychioli Gosod a Chynnal a Chadw ac yn arwain ar fframweithiau cymhwysedd a heriau eraill sy'n ymwneud â chymhwysedd o fewn y meysydd hyn.

Ers cyhoeddi **Gosod y Bar – cyfundrefn gymhwysedd newydd ar gyfer adeiladu dyfodol diogelwch** (Hydref 2020, t.54, Argymhellion 243 a 244), roedd y prif ffocws ar Adeiladau Mwyaf Peryglus (HRBs) wrth ddatblygu'r fframweithiau cymhwysedd peilot. Nododd y grwpiau gwaith fod ychydig iawn o wahaniaeth rhwng y gwaith a wneir mewn HRB ac adeilad nad yw'n HRB. O ganlyniad, mae SLG10 wedi canolbwyntio ar gyflwyno'r argymhellion y dylid mabwysiadu fframwaith ar gyfer pob rôl gosodwr sy'n gweithio ar adeiladau o fewn cwmpas.

Yn 2024, ehangodd SLG10 ei raglen beilot gychwynnol i'r fformat ar y dudalen nesaf, gan grwpio'r gwaith yn bum llif gwaith: Amlenni, Gwasanaethau Peirianneg, Tu Mewn, Sifils a Strwythurau.

Mae CITB yn cefnogi'r diwydiant gyda chreu'r Fframweithiau Cymhwysedd ar gyfer pob rôl o fewn ei orchymyn cwmpas. Mae CITB yn helpu i hwyluso gwaith y Grŵp Sector, safoni'r dull gweithredu, rhannu arferion gorau ac alinio swyddogaethau cyffredin.

Mae CITB hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gweithgareddau gweithredu, gan gefnogi cynllunio ar gyfer y dyfodol, ac arwain ar ddatblygiad unrhyw gynhyrchion allweddol i gefnogi'r gofynion Cymhwysedd newydd a ddiffiniwyd.

Diogelwch Tân mewn Adeiladau

Mae **Gosod y Bar – cyfundrefn gymhwysedd newydd ar gyfer adeiladu dyfodol diogelwch** (Hydref, 2020, t.54, Argymhellion 243), hefyd yn mynnu

"Dylai pob gosodwr feddu ar wybodaeth graidd am ddiogelwch tân mewn adeiladau – hyfforddiant i'w safoni a'i wneud yn orfodol."

Ymgynghorwyd â grŵp o randdeiliaid yn y diwydiant ynghylch cynnwys cwrs hyfforddiant Diogelwch Tân mewn Adeiladau i'w gwblhau gan bob gosodwr. Mae CITB wedi ariannu creu'r cwrs, ac mae bellach yn adnodd hyfforddiant am ddim sydd ar gael ar blatfform eDdysgu gwefan CITB.

Cwrs Hyfforddiant Ar-lein Am Ddim Diogelwch Tân mewn Adeiladau

Fframweithiau Cymhwysedd

Ysgrifennwyd y Fframweithiau Cymhwysedd yn unol â **BS 8670-1:2024 Fframweithiau Cymhwysedd ar gyfer diogelwch adeiladau – Meini prawf craidd, Cod Ymarfer.** (cyhoeddwyd ym Mai 2024, t.10, Cymhwysedd a Fframweithiau Cymhwysedd, 0.3.2 i 0.3.5), sy'n amlinellu prif gydrannau Fframwaith Cymhwysedd.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd yn cynnwys y cydrannau canlynol:

1. **Llwybrau a Argymhellir i Gymhwysedd:**
   Darllenir y Llwybr i Gymhwysedd o'r gwaelod i'r brig. Mae'n cynnwys 3 llwybr: un ar gyfer rhywun newydd i'r maes, un ar gyfer rhywun sydd â rhywfaint o brofiad, ac un ar gyfer gweithiwr profiadol sydd â llawer mwy o brofiad. Mae'n nodi'r llwybrau cydnabyddedig tuag at gyflawni cymhwysedd.

2. **Map Swyddogaethol:**
   Mae hwn yn dangos sut mae rôl benodol ym maes adeiladu yn cael ei rhannu'n swyddogaethau gwahanol: Cymwyseddau Craidd Adeiladu, Cymwyseddau Craidd Crefft, a Chymwyseddau Penodol i Grefft.

3. **Cymwyseddau Craidd Adeiladu**
   Y rhain yw'r cymwyseddau sylfaenol ar gyfer y rhan fwyaf o rolau ym maes adeiladu. Cymwyseddau megis Iechyd a Diogelwch neu Drin â Llaw sy'n galluogi pawb i weithio'n ddiogel ar y safle.
   ***Sylwer: Mae'r cymwyseddau craidd adeiladu wedi cael eu hadolygu o ran fformat ac ar hyn o bryd maent yn fersiynau drafft sy'n disgwyl adolygiad ar y cyd gan y diwydiant.*

4. **Cymwyseddau Craidd Crefft:**
   Mae'r rhain yn cael eu rhannu ar draws sawl rôl o fewn teulu galwedigaethol. Enghraifft o hyn fyddai Ymarferion Gwaith Diogel, a ddefnyddir gan osodwyr llechi to yn ogystal â gosodwyr casglwyr solar, gan eu bod ill dau yn gweithio yn yr un amgylchedd.

5. **Cymwyseddau Penodol i Grefft:**
   Mae'r rhain yn cynnwys sawl swyddogaeth benodol, ac wrth eu cyfuno, maent yn diffinio'r gofynion cymhwysedd ar gyfer rôl. Defnyddiwch y tabiau Gwybodaeth a Sgil i ddangos/cuddio'r manylion o fewn pob swyddogaeth.

Diffiniadau Allweddol Fframwaith Cymhwysedd

Mae BS8670-1:2024 yn diffinio elfennau allweddol Fframweithiau Cymhwysedd fel a ganlyn:

Cymhwysedd: cymhwyso sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiad i gyflawni canlyniad diffiniedig

Sgiliau: y gallu i gyflawni gweithgaredd neu dasg yn gyson â chanlyniad penodol a fwriadwyd

Gwybodaeth: cymathu ffeithiau, damcaniaethau ac arferion mewn perthynas â rôl, swyddogaeth, gweithgaredd neu dasg benodol

Profiad: cymryd rhan mewn gweithgareddau perthnasol neu arsylwi ffeithiau a digwyddiadau sy'n arwain at gaffael neu wella gwybodaeth a sgiliau

Ymddygiadau: pethau arsylladwy y mae unigolyn yn eu gwneud neu nad yw'n eu gwneud

Dilysu: proses ffurfiol o asesu cymhwysedd unigolyn yn erbyn fframwaith cymhwysedd penodol i'r sector

Ail-ddilysu: proses ffurfiol o ailasesu cymhwysedd unigolyn yn erbyn fframwaith penodol i'r sector yn rheolaidd i wirio bod cymhwysedd wedi'i gynnal

Trosolwg o'r Sector

Y Broses Ddatblygu

Roedd y broses ddatblygu yn cynnwys ymgynghori a chydweithio helaeth drwy gyfres o gyfarfodydd gweithgor gyda Gosod a Chynnal a Chadw SLG10 (Gosodwyr WG2 gynt), cynrychiolaeth ffederasiynau/cymdeithasau, ymgynghoriadau pellach gyda'u haelodau cyflogwyr a CITB. Roedd arolwg ar-lein a gweminar hefyd ar gael i gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd a chynnig cyfle i adolygu, rhoi adborth, cefnogi a dilysu datblygiad y fframwaith.

Cynhaliwyd dadansoddiad trylwyr o'r cymwyseddau, safonau, hyfforddiant, cymwysterau, arferion gwaith cyfredol a materion a heriau hysbys presennol i gynhyrchu'r fframwaith a nodi camau gweithredu yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Cynhaliwyd y gweithgorau mewn modd cydweithredol, agored a chyfeillgar iawn gyda phawb a gymerodd ran yn cael y cyfle i gyfrannu at y trafodaethau a'r gwaith a wneir mewn perthynas â'r SKEB.

Trosolwg o'r Sector

Canlyniadau a Chanfyddiadau

Mae'r grŵp wedi nodi bod nifer sylweddol o swyddogaethau ar draws y diwydiant sydd ar hyn o bryd yn perthyn i bedwar prif gategori / set sgiliau, ac mae'r Gosodwr Systemau Giât Awtomataidd a'r Technegydd Gwasanaeth yn un ohonynt. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio ymhellach yn ystod y gweithrediad.

Mae'r camau gweithredu arwyddocaol canlynol wedi'u nodi a byddant yn cael sylw fel rhan o gynllun gweithredu:

Camau gweithredu sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith:

- Adolygiad llawn o gyfres gyfredol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol NOS

Er mwyn sicrhau cwmpas cenedlaethol, mae angen y canlynol:

- Datblygu prentisiaethau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon
- Ymgysylltu â darparwyr i gyflwyno'r Brentisiaeth gyfredol (a'r un ddiwygiedig) yn yr Alban
- Adolygiad ac ehangu cwmpas prentisiaeth Saesneg Drysau Pweredig i Gerddwyr (ST0373) bresennol i gynnwys systemau Giât Awtomataidd gan nad oes cynnig prentisiaeth ar gyfer y sector hwn ar hyn o bryd

Cynhelir ymgynghoriad llawn, ar draws y diwydiant, gan ddefnyddio sylfaen aelodaeth y gymdeithas/ffederasiwn i nodi'r angen am:

- Datblygu cyrsiau hyfforddiant byr i bontio'r bwlch rhwng y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cyfredol (cyn y diwygiad), a'r Fframwaith Cymhwysedd / Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol diwygiedig a hwyluso uwchsgilio gweithredwyr cymwys ar hyn o bryd
- Adolygiad ac ehangu cwmpas prentisiaeth Saesneg Drysau Pweredig i Gerddwyr (ST0373) presennol i gynnwys systemau Giât Awtomataidd gan nad oes cynnig prentisiaeth ar gyfer y sector hwn ar hyn o bryd
- DPP ychwanegol sy'n hanfodol i ddiogelwch y mae'n rhaid ei gwblhau i ennill ac ail-ddilysu i adnewyddu'r Cerdyn Gweithiwr Medrus
- Datblygu llwybrau cymhwyso cynyddol i yrru cymhwysedd lefel uwch
- Datblygu Llwybr Amgen i Gymhwysedd (ARTC) ac Asesiad Ymarferol Gweithiwr Profiadol (EWPA) i gefnogi'r rhai sy'n dod i mewn i'r diwydiant gyda sgiliau trosglwyddadwy
- Cyflwyno hyfforddiant Diogelwch Tân mewn Adeiladau fel gofyniad cymhwysedd gorfodol yn unol â'r argymhelliad canlynol o'r adroddiad Gosod y Bar: Mae gan bob gosodwr wybodaeth graidd am ddiogelwch tân mewn adeiladau - hyfforddiant i'w safoni a'i wneud yn orfodol.

Mae'r rhwystrau a nodwyd i fynd i'r afael â'r camau gweithredu yn cynnwys diffyg sylweddol o gyfleoedd hyfforddi cydnabyddedig, dim ond un darparwr NVQ sy'n darparu'r NVQ yn Lloegr ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth gyson yn y gwledydd datganoledig er y gall rhai dysgwyr groesi'r ffiniau i gwblhau asesiad gyda'r darparwyr yn Lloegr. Mae'r cyfraddau cymryd a chyflawni yn isel iawn.

Mae'n werth nodi bod gan y ffederasiynau gynigion hyfforddi amrywiol a fyddai, pe baent yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cymhwysedd, yn darparu llwybr datblygu cryf.

Defnyddiwyd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ac elfennau craidd perthnasol y Brentisiaeth Drysau Pweredig i Gerddwyr i ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd.

Aeth yr NOS a'r S/NVQ dilynol trwy adolygiad a diweddariad yn 2017, er bod adolygiad dangosol i'r Strwythur Cymwysterau Argymhellir (RQS) yn 2022.

Gyda'r cyd-liniad hwn â'r NOS, nodwyd nad oedd y safonau a'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn addas at y diben oherwydd diffyg manylion ynghylch Drysau Tân.

Cydnabyddir bod y sector yn cwmpasu amrywiaeth eang o ofynion cymhwysedd yn seiliedig ar wahanol rolau swyddi a'r cynhyrchion dan sylw. Yn ystod y gweithredu, rhagwelir y bydd angen rhannu'r swyddogaethau yn y SKEB ymhellach er mwyn gwella tryloywder yn y meysydd hyn.

[2]Setting the Bar – A new competence regime for Building a Safer Future. Awgrymiad 243.

Llwybr i Gymhwysedd

Angen Datblygu
Wedi Datblygu – Angen Adolygu.
Wedi Datblygu

DILYNIANT	**Datblygiad NOS:** Gosod, Gwasanaethu, Cynnal, Atgyweirio a Datgymalu a Chaeadau Tân Pweredig neu sy'n defnyddio Pŵer Dynol Gosod, cynnal a chadw, atgyweirio drysau, giatiau a chaeadau cymwys, Dim Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 3 na Phrentisiaethau ar gael ar hyn o bryd Prentisiaeth Technegydd Tirfesur Lefel 3 ST0322 NVQ Lefel 3 OWS: Goruchwylio Gwaith Galwedigaethol
SDTS CITB A HYFFORDDIANT DPP	SDTS Lefel CANOLRADD / UWCH Cymwysedig ar gyfer Grant CITB Dyfarniad Lefel 4 ABBE mewn Deddfwriaeth Drws Diwydiannol a Drws Garej a Giât Awtomataidd a Rhwystrau Traffig 610/0113/7 Angen adnewyddu bob 3 blynedd
AIL-DDILYSU CYMHWYSEDD	Cynllun cerdyn (CSCS) Yn cael ei adnewyddu bob 3 neu 4 blynedd (yn dibynnu ar y darparwr) Dyfarniad Lefel 2 ABBE mewn Diogelwch Giatiau Awtomataidd a Rhwystrau Traffig 610/0112/6 Wedi'i adnewyddu bob 3 blynedd **Hyfforddiant gan Gymdeithasau:** Gosod Giatiau a Rhwystrau, Diogelwch Giatiau a Rhwystrau Wedi'i adnewyddu bob 4 blynedd
CYMHWYSEDD CRAIDD **CSCS GLAS**	Gosodwr Drysau, Giatiau a Chaeadau Cymwysedig - Lloegr NVQ Lefel 2 Galwedigaethau Gosod Arbenigol (Systemau Drysau, Giatiau a Chaeadau - Gosod a Chynnal a Chadw)
LLWYBR I GYMHWYSEDD SYLFAENOL	Gosodwr Drysau, Giatiau a Chaeadau Cymwysedig - Lloegr Prentisiaeth Gosodwr/Gwasanaethu Giatiau Pweredig a Drysau Diwydiannol a Garej Lefel 2 Skills England Llwybr Amgen i Gymhwysedd Diploma NVQ Lefel 2 (OSAT) Galwedigaethau Gosod Arbenigol (Systemau Drysau, Giatiau a Chaeadau – Gosod a Chynnal a Chadw) Lloegr NOCN: 603/7665/X Hefyd yn cael ei gydnabod mewn gwledydd datganoledig

Llwybr i Gymhwysedd



Map Swyddogaethol

Cymwyseddau Craidd Adeiladu

MAP SWYDDOGAETHOL GWEITHGAREDDAU		GOSODWR SYSTEMAU GATIAU Â PHŴER	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU GATIAU Â PHŴER	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU GATIAU Â PHŴER	GOSODWR SYSTEMAU GATIAU Â LLAW	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU GATIAU Â LLAW	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU GATIAU Â LLAW
CYMWYSEDDAU CRAIDD ADEILADU							
CC001	Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC002	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC003	Symud, trin neu storio adnoddau	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CTC-001	Cymhwysedd Craidd Crefft	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Map Swyddogaethol

Cymwyseddau Craidd Adeiladu

MAP SWYDDOGAETHOL GWEITHGAREDDAU		GOSODWR SYSTEMAU RHWYSTRAU Â PHŴER	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU RHWYSTRAU Â PHŴER	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU RHWYSTRAU Â PHŴER	GOSODWR SYSTEMAU RHWYSTRAU Â LLAW	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU RHWYSTRAU Â LLAW	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU RHWYSTRAU Â LLAW
CYMWYSEDDAU CRAIDD ADEILADU							
CC001	Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC002	Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC003	Symud, trin neu storio adnoddau	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CTC-001	Cymhwysedd Craidd Crefft	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Map Swyddogaethol

Cymwyseddau Craidd Crefft

MAP SWYDDOGAETHOL GWEITHGAREDDAU		GOSODWR SYSTEMAU RHWYSTRAU Â PHŴER	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU RHWYSTRAU Â PHŴER	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU RHWYSTRAU Â PHŴER	GOSODWR SYSTEMAU RHWYSTRAU Â LLAW	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU RHWYSTRAU Â LLAW	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU RHWYSTRAU Â LLAW
CYMWYSEDDAU CRAIDD CREFFT							
SIO-DGS-02	Gosod systemau drysau a Giât	✓			✓		
SIO-DGS-01	Gwasanaethu a chynnal a chadw neu gomisiynu systemau drysau, Giât neu gaeadau		✓			✓	
SIO-DGS-04	Dadosod ac atgyweirio systemau drysau, Giât neu gaeadau			✓			✓

Map Swyddogaethol

Cymwyseddau Craidd Crefft

MAP SWYDDOGAETHOL GWEITHGAREDDAU		GOSODWR SYSTEMAU GATIAU Â PHŴER	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU GATIAU Â PHŴER	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU GATIAU Â PHŴER	GOSODWR SYSTEMAU GATIAU Â LLAW	TECHNEGYDD GWASANAETHU SYSTEMAU GATIAU Â LLAW	TECHNEGYDD ATGYWEIRIO SYSTEMAU GATIAU Â LLAW
CYMWYSEDDAU CRAIDD CREFFT							
SIO-DGS-02	Gosod systemau drysau a Giât	✓			✓		
SIO-DGS-01	Gwasanaethu a chynnal a chadw neu gomisiynu systemau drysau, Giât neu gaeadau		✓			✓	
SIO-DGS-04	Dadosod ac atgyweirio systemau drysau, Giât neu gaeadau			✓			✓

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol (CC001)

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofynion statudol cyfredol perthnasol a chanllawiau swyddogol; cyfrifoldebau, i chi'ch hun ac eraill, sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle; ymddygiad personol a diogelwch yn y gweithle.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle

Cydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle bob amser

Osgoi risg drwy gydymffurfio â gwybodaeth a roddir yn ymwneud â'r canlynol:

- cyfnod sefydlu
- briffiau
- defnyddio hyfforddiant blaenorol (defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch)

Cydymffurfio â gofynion statudol a/neu hysbysiadau diogelwch ac arwyddion rhybuddio a ddangosir yn y gweithle neu ar offer

Adnabod peryglon

Adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithle a'u hadrodd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

Adnabod peryglon a grëwyd gan amgylchiadau sy'n newid, nad ydynt wedi'u rheoli o'r blaen, a'u hadrodd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol

Derbyn cyfrifoldeb am, a chydymffurfio â, pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles

Dangos ymddygiad personol sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ystyried eraill
- dehongli cyfarwyddiadau a roddir i gynnal systemau gwaith diogel
- cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth)
- cynnal arferion gwaith o safon
- cyfrannu at gynnal a chadw cyfleusterau lles y gweithle
- storio a defnyddio offer a ddarperir i gadw pobl yn ddiogel
- gwaredu gwastraff a/neu eitemau y gellir eu bwyta, yfed neu ddefnyddio

Trefniadau diogelwch

Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cynnal diogelwch y gweithle a'u cefnogi:

- yn ystod y diwrnod gwaith
- ar ôl cwblhau gwaith y diwrnod
- gan bersonél heb awdurdod (gweithredwyr eraill a/neu'r cyhoedd yn gyffredinol)
- rhag lladrad

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol (CC002)

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud â chyfathrebu cynhyrchiol â rheolwyr llinell, cydweithwyr a chwsmeriaid, dehongli gwybodaeth, cynllunio a chynnal arferion gwaith cynhyrchiol, gweithio gydag eraill neu fel unigolyn.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Cyfathrebu ag eraill

Cyfathrebu â rheolwyr llinell, cydweithwyr, neu gwsmeriaid i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn gynhyrchiol

Parchu anghenion eraill wrth gyfathrebu

Dilyn gweithdrefnau

Dehongli a dilyn gweithdrefnau sefydliadol a defnyddio adnoddau priodol i gynllunio dilyniant y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chynnal cofnodion

Cwblhau dogfennaeth yn ôl gofynion y sefydliad

Perthnasoedd gwaith

Cynnal perthnasoedd gwaith da

Gweithio'n gynhyrchiol gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr, cwsmeriaid, neu bobl eraill

Cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Symud, trin a storio adnoddau (CC003)

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith, yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel ac iach, dewis cymhorthion neu offer i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol a symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol i gynnal cyflwr defnyddiol.

SGILIAU | GWYBODAETH | >

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

Dehongli'r wybodaeth i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol, a defnyddio a storio cymhorthion ac offer codi ar gyfer y canlynol:

- technegol
- cynnyrch a rheoleiddiol
- llafar
- ysgrifenedig
- cyflwyniad graffigol

Arferion gwaith diogel

Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau swyddogol i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol a chynnal arferion gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gwaith
- defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwchequipment
- defnydd diogel o gymhorthion codi
- diogelu'r amgylchedd

Dewis adnoddau

Dewis yr adnoddau gofynnol sy'n gysylltiedig â symud, trin neu storio:

- lcymhorthion codi a thrin
- cynhwysydd(au)
- systemau trwsio, dal a diogelu

Lleihau'r risg o ddifrod

Cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos drwy:

- amddiffyn yr adnoddau galwedigaethol a'u hardal gyfagos rhag difrod
- cynnal ardal waith ddiogel, clir a thaclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Cydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol

Cydymffurfio â gwybodaeth y contract i symud, trin neu storio adnoddau'n effeithlon i'r fanyleb ofynnol drwy:

- Dangos sgiliau gwaith i:
  - symud
  - lleoli
  - storio
  - diogelu
  - defnyddio cymhorthion codi a thechnegau codi cinetig
- Symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol i fodloni gwybodaeth am gynnyrch a gofynion sefydliadol sy'n ymwneud ag o leiaf dri o'r canlynol:
  - deunydd ar ffurf dalen
  - deunydd rhydd
  - deunydd wedi'i fagio neu ei lapio
  - deunydd bregus
  - offer a chyfarpar
  - cydrannau
  - hylifau

Amser a neilltuwyd

Cwblhau'r gwaith o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu gleient

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Dehongli Gwybodaeth

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU	GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Dehongli a defnyddio'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- manylebau
- amserlenni
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr
- data electronig

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Arferion gwaith diogel

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau swyddogol i gyflawni'r gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gwaith
- defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch
- defnydd diogel o offer mynediad
- defnydd, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd
- risgiau penodol yn ymwneud â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Dewis Adnoddau

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Dewis y swm a'r ansawdd gofynnol o'r adnoddau canlynol ar gyfer y dulliau gwaith:

- deunyddiau
- cydrannau a gosodiadau
- offer a chyfarpar

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Lleihau'r risg o ddifrod

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

cydymffurfio â gweithdrefnau'r cwmni i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas drwy wneud y canlynol:

- diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod
- cadw'r ardal waith yn ddiogel, yn glir ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â rheolau'r safle a'r ddeddfwriaeth gyfredol

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Bodloni manyleb y contract

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

GWYBODAETH

Rhaid i chi wybod a deall:

Pwysigrwydd ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles

Sut i adnabod crefftau, proffesiynau a rolau cyffredin mewn adeiladu

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Dull o weithio

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU

Rhaid i chi allu:

Cwblhau'r gwaith yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion eraill a'r cleient

GWYBODAETH

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU

Rhaid i chi allu:

Cyfathrebu'n effeithiol ar draws grwpiau amrywiol drwy:

- gydnabod, gwerthfawrogi, gwerthfawrogi a pharchu amrywiaeth y diwylliannau, y credoau a'r arferion sy'n bodoli
- arwain drwy esiampl a hyrwyddo diwylliant cynhwysol
- gweithio'n effeithiol mewn timau amrywiol i gyflawni nodau ac amcanion

GWYBODAETH

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Sero Net

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu: :

Gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol gyda deunyddiau i leihau gwastraff, gan leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau lle bo'n briodol yn ystod prosiectau

Cefnogi prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni

Cymwysterau Craidd Adeiladu
Sgiliau Digidol

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Deall a gweithredu ar wybodaeth ddigidol

Amddiffyn gwybodaeth ddigidol sensitif gan ddefnyddio dulliau diogel

Cipio tystiolaeth ffotograffig o waith a gwblhawyd gan ddefnyddio caledwedd

Defnyddio cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â thimau amrywiol trwy dechnolegau digidol gan gynnwys:

- peirianwyr
- contractwyr
- cleientiaid
- penseiri
- gweithwyr proffesiynol eraill

Cymwysterau Craidd Adeiladu

Ôl-osod

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Esbonio manteision gwaith ôl-osod

Disgrifio hanfodion ffiseg adeiladu ac effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys colli gwres, awyru ac aerglosrwydd

Disgrifio gwahanol briodweddau ac ystyron U-werthoedd sy'n gysylltiedig â drysau a chaeadau diwydiannol wedi'u hinswleiddio'n thermol

Defnyddio canllawiau arfer gorau'r diwydiant i gefnogi gosod ôl-osod effeithiol

Defnyddio cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol mewn gweithrediadau ôl-osod gyda thimau amrywiol, gan gynnwys:

- cleientiaid
- contractwyr
- peirianwyr
- penseiri
- gweithwyr proffesiynol eraill

Cymwysterau Craidd Adeiladu
Datblygiad Parhaus

Disgrifiad: Mae'r swyddogaethau craidd crefft hyn yn cynnwys yr holl gymwyseddau cyffredin gan gynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, lleihau difrod, a gweithio o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar ofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

GWYBODAETH

Rhaid i chi wybod a deall:

Datblygiad parhaus a manteision cydymffurfiaeth barhaus a dilyniant gyrfa

Y llwybrau dilyniant nodweddiadol ar gyfer y diwydiant

Y strwythurau cymwysterau nodweddiadol a'r llwybrau i gymhwysedd proffesiynol

Gosod systemau drysau a giatiau (DSG-02)

Amgylchedd gwaith a dulliau gweithio diogel

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gosod a chomisiynu systemau drysau, gatiau neu rwystrau i ddiwydiannau, masnachau neu gerddwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Penderfynu bod y cyfanrwydd strwythurol presennol yn addas ar gyfer cymhwyso'r system drws neu giât

Gosod systemau drysau a giatiau (DSG-02)
Offer a Chyfarpar

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gosod a chomisiynu systemau drysau, gatiau neu rwystrau i ddiwydiannau, masnachau neu gerddwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ar gyfer gosodiadau system drysau neu giât yn ddiogel ac yn gymwys

Gosod systemau drysau a giatiau (DSG-02)

Paratoi Gwaith

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gosod a chomisiynu systemau drysau, gatiau neu rwystrau i ddiwydiannau, masnachau neu gerddwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Dangos y gallu i fesur agoriadau adeilad yn gywir ar gyfer gosod drysau neu giât

Marcio safleoedd ar gyfer cydrannau drysau neu giât yn seiliedig ar fesuriadau a chyfarwyddiadau gwaith

Penderfynu bod y cyfanrwydd strwythurol presennol yn addas ar gyfer cymhwyso'r system drws neu giât

Gosod systemau drysau a giatiau (DSG-02)
Gweithredu gwaith

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gosod a chomisiynu systemau drysau, gatiau neu rwystrau i ddiwydiannau, masnachau neu gerddwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

SGILIAU

GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Codi, lefelu, cydbwyso ac alinio cydrannau drws neu giât yn ystod y gosodiad

Gosod cydrannau at ei gilydd yn ddiogel ac addasu ar gyfer gweithrediad priodol a diogel

Gosod systemau drws neu giât yn ddiogel

Gosod systemau drws neu giât yn unol â chyfarwyddiadau gosod y gwneuthurwr

Nodi a datrys problemau a heriau technegol wrth osod drysau neu systemau giât o fewn terfyn manyleb y cynnyrch a'i gymhwysiad

Rhoi'r gorffeniadau cywir i osodiadau drws neu giât

gosod a chomisiynu systemau drws neu giât pweredig neu sy'n defnyddio pŵer dynol diwydiannol a masnachol:

- drysau adrannol
- drysau symudol fertigol
- drysau sy'n llithro a siglo'n llorweddol
- systemau giât
- systemau rhwystr

Gosod a chomisiynu systemau drws neu giât pweredig neu sy'n defnyddio pŵer dynol i gerddwyr a phreswylwyr:

- Gosod a chomisiynu systemau drws neu giât pweredig neu sy'n defnyddio pŵer dynol i gerddwyr a phreswylwyr:
- drysau garej domestig (adeiladweithiau panel, rholer neu adrannol)
- drysau llithro, siglo a phlygu
- drysau cylchdro
- systemau gatiau
- systemau rhwystrau

Cynhyrchion pweredig yn unig:

Defnyddio gwybodaeth am gymwysiadau cylched rheoli i fodloni manyleb a safon gweithredu ddiogel:

- gosod gwifrau trydanol a systemau rheoli ar gyfer drysau a giatiau awtomatig
- profi a datrys problemau gwifrau trydanol a systemau rheoli
- integreiddio systemau rheoli â moduron, byrddau rheoli, a chydrannau diogelwch
- gosod synwyryddion actifadu a diogelwch, offer amddiffynnol electro-sensitif (ESPE) ac offer amddiffynnol sy'n sensitif i bwysau (PSPE)

Gosod systemau drysau a giatiau (DSG-02)
Gwiriadau Ymarferoldeb a Diogelwchs

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gosod a chomisiynu systemau drysau, gatiau neu rwystrau i ddiwydiannau, masnachau neu gerddwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Profi ymarferoldeb gweithredol systemau drws neu giât sydd wedi'u gosod

Sicrhau bod yr holl ddyfeisiau diogelwch yn gweithio'n gywir

Gwirio ymarferoldeb gweithredol y system sydd wedi'i gosod

Cynnal asesiad risg gweddilliol a chwblhau unrhyw gamau cywirol sydd eu hangen

Cynhyrchion pweredig yn unig:

Cysylltu, addasu a phrofi systemau drws sydd wedi'u gosod, synwyryddion actifadu a diogelwch cysylltiedig

Cynnal profion grym, dadansoddi canlyniadau a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen

Dadansoddi data a gwneud addasiadau i sicrhau nad yw cyflymderau uchaf y drws neu'r giât yn cael eu rhagori

Gosod systemau drysau a giatiau (DSG-02)
Gwaith Tîm a Chyfathrebu

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gosod a chomisiynu systemau drysau, gatiau neu rwystrau i ddiwydiannau, masnachau neu gerddwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n ddiogel.

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Gweithio'n effeithiol o fewn amgylchedd tîm a bod yn ymwybodol o anghenion galwedigaethau eraill sy'n ymwneud â'r broses osod

Cyfleu cyfarwyddiadau gweithredol, egwyddorion, hyfforddiant defnyddwyr a mesurau diogelwch yn effeithiol i gleientiaid, cwsmeriaid, neu eu cynrychiolwyr

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau drysau, giatiau neu gaeadau (DGS-01)

Amgylchedd a dulliau gweithio diogel

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu i gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Dangos cymhwysiad safonau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol ar gyfer gweithio gyda systemau drysau, giatiau neu gaeadau

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau drysau, giatiau neu gaeadau (DGS-01)

Offer a Chyfarpar

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu i gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer a chyfarpar yn ddiogel ac yn gymwys ar gyfer gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, giatiau neu gaeadau

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau drysau, giatiau neu gaeadau (DGS-01)

Paratoi gwaith

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu i gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Asesu risg y system drws, giât neu gaead i'w gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw i gynnwys:

- hygyrchedd pob rhan weithredol o'r system gyfan
- pennu dull gweithio diogel
- asesu risg peryglon unigol sy'n benodol i'r safle yn ddeinamig
- pennu bod y cyfanrwydd strwythurol presennol yn addas ar gyfer gwasanaethu a chynnal a chadw'r drws, giât neu gaead
- sicrhau bod yr ardal waith wedi'i gwahanu'n ddiogel i sicrhau diogelwch y gweithiwr a defnyddwyr eraill

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau drysau, giatiau neu gaeadau (DGS-01)

Gweithredu gwaith

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu i gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Nodi a datrys problemau a heriau technegol wrth wasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, giât neu gaeadau o fewn terfyn manyleb y cynnyrch a'i gymhwysiad

Gwasanaethu a chynnal a chadw amrywiol systemau drysau, giât neu gaeadau pweredig neu sy'n defnyddio pŵer dynol yn seiliedig ar gyfarwyddiadau gwaith:

masnachol:

- drysau adrannol
- drysau symudol fertigol
- drysau llithro a siglo'n llorweddol
- systemau giât
- systemau rhwystr

cerddwyr / preswyl:

- drysau garej domestig (adeiladweithiau panel, rholer neu adrannol)
- drysau llithro, siglo, a phlygu
- drysau cylchdroi
- systemau giât
- systemau rhwystr

systemau caeadau:

- caeadau rholer a rhwyll
- adrannol
- sy'n symud fertigol
- sy'n gweithredu'n llorweddol

Cynhyrchion pweredig yn unig:

Cymhwyso cylchedau rheoli, profi, canfod namau, integreiddio â moduron, byrddau rheoli, a synwyryddion diogelwch ar gyfer systemau drysau, giât neu gaeadau

- cysylltu, addasu, a phrofi'r system gan gynnwys synwyryddion actifadu a diogelwch perthnasol
- gwirio swyddogaeth weithredol y system sy'n cael ei gwasanaethu a'i chynnal
- gwasanaethu a chynnal setiau drysau ardystiedig trydydd parti yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr neu i fodloni gofynion y cynllun a brofwyd
- cynnal profion grym, dadansoddi canlyniadau a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen
- profi swyddogaeth weithredol a dyfeisiau diogelwch y giât drws neu'r system gaeadau

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau drysau, giatiau neu gaeadau (DGS-01)

Gwiriadau Ymarferoldeb a Diogelwch

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu i gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Dadansoddi data a gwneud addasiadau i sicrhau nad yw cyflymderau uchaf drws, giât neu gaead yn cael eu rhagori

Cynnal asesiad risg gweddilliol a chwblhau unrhyw gamau cywirol sydd eu hangen

Nodi pryd mae system drws, giât neu gaead yn anniogel ac mae angen ei diffodd

Cyfathrebu pryd y bernir bod system drws, giât neu gaead yn anniogel a chyhoeddi hysbysiad system anniogel

Gwasanaethu a Chynnal a Chadw Systemau drysau, giatiau neu gaeadau (DGS-01)

Gwaith Tîm a Chyfathrebu

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â gwasanaethu a chynnal a chadw systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu i gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Gweithio'n effeithiol o fewn amgylchedd tîm a bod yn ymwybodol o anghenion galwedigaethau eraill sy'n ymwneud â'r broses gwasanaethu a chynnal a chadw

Cyfleu cyfarwyddiadau gweithredol, egwyddorion, hyfforddiant defnyddwyr a mesurau diogelwch yn effeithiol i gleientiaid, cwsmeriaid, neu eu cynrychiolwyr

Datgymalu ac Atgyweirio systemau drysau, giât neu gaeadau (DGS-04)

Amgylchedd gwaith a dulliau gweithio diogel

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â datgymalu, atgyweirio neu ailosod systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU

GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Dangos cymhwyso safonau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol ar gyfer gweithio gyda systemau drysau, giatiau neu gaeadau

Datgymalu ac Atgyweirio systemau drysau, giât neu gaeadau (DGS-04)

Offer a Chyfarpar

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â datgymalu, atgyweirio neu ailosod systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer a chyfarpar yn ddiogel ac yn gymwys ar gyfer datgymalu ac atgyweirio systemau drysau, giatiau neu gaeadau

Datgymalu ac Atgyweirio systemau drysau, giât neu gaeadau (DGS-04)

Paratoi Gwaith

Disgrifiad: Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â datgymalu, atgyweirio neu ailosod systemau drysau, caeadau, giatiau neu rwystrau diwydiannol, masnachol neu gerddwyr a sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel

SGILIAU | GWYBODAETH

Rhaid i chi allu:

Asesiad risg y system drws, giât neu gaead sydd i'w datgymalu neu ei hatgyweirio i gynnwys:

- cyfanrwydd strwythurol yr ardal gyfagos a'r agoriad
- hygyrchedd pob rhan weithredol o'r system gyfan
- pennu dull gweithio diogel
- asesu risg peryglon unigol sy'n benodol i'r safle yn ddeinamig
- pennu bod y cyfanrwydd strwythurol presennol yn addas ar gyfer atgyweirio'r drws, giât neu gaead
- sicrhau bod yr ardal waith wedi'i hamgylchynu'n ddiogel i sicrhau diogelwch y gweithiwr a defnyddwyr eraill

